



# Amcan Llesiant 14

## Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant

Y canlynol yw ein hymrwymiaadau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymiaadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<b>A - Safonau'r Gymraeg</b>		
Byddwn yn paratoi Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg sy'n manylu ar y camau a gymerwyd i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. <i>(Cam gweithredu rhif 12433)</i>	✓	Mae Adroddiad Blynyddol 2016-17 wedi cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi ar y wefan gorfforaethol. Cytunwyd i baratoi adroddiad mwy cryno ar gyfer 2017-18 ac i osod y safonau mewn grwpiau yn hytrach nag adrodd arnynt yn unigol.
Byddwn yn datblygu Rhaglen Iaith Gymraeg integredig ar gyfer ein staff. <i>(Cam gweithredu rhif 12425)</i>	✓	Mae Rhaglen Integredig wedi cael ei datblygu ac yn cael ei gweithredu. Y canlynol yw'r nodweddion allweddol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ein lefel bresennol o ddarpariaeth wedi ei mapio yn erbyn lefelau'r iaith Gymraeg</li> <li>• Cynhyrchwyd gwybodaeth i'r dysgwyr i'w galluogi i ddod o hyd i'r dysgu mwyaf priodol i'w hanghenion.</li> <li>• Nodwyd a llenwyd bylchau drwy gyrchu rhaglenni a gyllidwyd yn allanol</li> <li>• Mae rhaglenni pwrpasol wedi'u hariannu i ddiwallu anghenion adrannol penodol (gan ddefnyddio cyllid allanol yn bennaf)</li> <li>• Mae'r Rhaglen Iaith Gymraeg yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau dysgu, yn cynnwys cynyddu'r defnydd o e-ddysgu a Mentoriaid Iaith.</li> </ul>
Byddwn yn rhoi ar waith ganfyddiadau'r adolygiad o'r gwasanaeth cyfieithu iaith Gymraeg ac yn darparu gwasanaeth effeithlon ar gyfer y Cyngor yn ogystal â phartneriaid. <i>(Cam gweithredu rhif 12426)</i>	✓	Mae'r adolygiad o'r gwasanaeth cyfieithu wedi cael ei gwblhau. Byddwn yn parhau i reoli a gwella'r gwasanaethau i sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa i ateb y galw parhaus am y gwasanaeth.
I hwyluso gwneud penderfyniadau da, byddwn yn cyflwyno Asesiad Effaith integredig a fydd yn cyfnerthu'r gofynion o ran Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. <i>(Cam gweithredu rhif 12436)</i>	x	Paratowyd Asesiad Effaith integredig, ochr yn ochr â chanllawiau ac adran goblygiadau diwygiedig i'w defnyddio mewn papurau Democrataidd. Mae cydweithwyr o bob rhan o'r Awdurdod wedi rhoi adborth. Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei drosglwyddo i 2018/19, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd y templedi'n cael eu treialu.
<b>B – Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg</b>		
Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn argymhellion adroddiad Yr Iaith Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2014. <i>(Cam gweithredu rhif 12937)</i>	✓	Mae'r argymhellion wedi eu diweddarau bellach ac maent yn rhan annatod o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a byddant yn cael eu diweddarau'n rheolaidd drwy'r gwaith hwn. Bydd Panel Ymgynghorol yr Aelodau ynghylch yr iaith Gymraeg yn cael diweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd, ar sail thema.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn cynyddu'r niferoedd sy'n ennill sgiliau sylfaenol a sgiliau pellach yn y Gymraeg drwy'r system addysg a thrwy drosglwyddo'r iaith yn y cartref. <i>(Cam gweithredu rhif 12938)</i></p>	✓	<p>Mae gan y camau hyn gysylltiad agos â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a phrosiectau megis Cymraeg i Blant, sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Mae Fforwm Iaith Gymraeg strategol y sir wedi paratoi a chynhyrchu llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog yn Sir Gaerfyrddin', sy'n cael ei ddosbarthu mewn ardaloedd allweddol o fewn y Sir ac i brosiectau allweddol megis Dechrau'n Deg. Bydd y cam gweithredu hwn yn mynd ymlaen i 2018/19. Y targed o ran y dyddiad cwblhau yw 31/03/2021</p>
<p>Byddwn yn cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly'r defnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd, a byddwn yn annog ac yn helpu sefydliadau'r sir i sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrwng cynyddol naturiol i'w Gwasanaethau. <i>(Cam gweithredu rhif 12939)</i></p>	✓	<p>Mae gan y Cyngor nifer o gyfleoedd dysgu i aelodau o staff drwy'r tîm Cymraeg i Oedolion mewnol a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Buom yn gweithio gyda sefydliadau Sector Cyhoeddus eraill yn y sir i gynnal ymgyrch dros Ddydd Gwyl Dewi i hyrwyddo argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi datblygu a hyrwyddo arolwg ymwybyddiaeth o Ddwyieithrwydd er mwyn darparu tystiolaeth yn sylfaen i'n gwaith. Mae hyn yn cael ei weinyddu drwy Fforwm Strategol y Sir.</p>
<p>Byddwn yn cymryd camau i gael effaith gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth er mwyn denu ein pobl ifanc i'r sir fel bod y cynnydd a wneir o ran siaradwyr Cymraeg drwy'r system addysg ddim yn cael ei gollu. Hefyd, ymdrechion i gymathu newydd-ddyfodiaid a sicrhau nad yw datblygiadau cynllunio newydd yn cael effaith andwyol ar hyfywedd y Gymraeg. <i>(Cam gweithredu rhif 12940)</i></p>	✓	<p>Mae Fforwm Iaith Gymraeg Strategol y sir yn gweithio'n agos gydag Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach 'Pecyn Croeso' i newydd-ddyfodiaid i'r sir. Mae trafodaethau ar y gweill drwy'r Fforwm mewn perthynas â diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol a sut y gall y Fforwm gefnogi'r broses adolygu. Hefyd mae prosiectau allweddol ar y gweill yn yr Is-adran Tai a Chymunedau Mwy Diogel sy'n cefnogi'r gwaith hwn, megis yr arolwg anghenion tai gwledig.</p>
<p>Byddwn yn targedu ardaloedd daearyddol penodol o fewn y sir, naill ai am eu bod yn cynnig potensial i ddatblygu neu yn achosi pryder yn ieithyddol, i gynyddu niferoedd sy'n medru ac yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny. <i>(Cam gweithredu rhif 12941)</i></p>	✓	<p>Nodwyd chwe maes blaenoriaeth ar draws y sir (Tref Caerfyrddin, Llanfihangel-ar- arth, Llanymddyfri, Rhydaman, tref Llanelli a Chydweili / Mynyddygarreg) yn seiliedig ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011. Roedd y Mentrau Iaith yn llwyddiannus mewn cais drwy LEADER ac wedi gallu penodi adnoddau ychwanegol ar ffurf Swyddogion Maes Blaenoriaeth. Mae'r swyddogion hyn yn paratoi cynlluniau gwaith penodol ar gyfer y meysydd hyn drwy greu cysylltiadau â sefydliadau lleol o fewn pob maes blaenoriaeth. Y gwaith hwn fydd ffocws y Fforwm Strategol Sirol ym mis Mehefin 2018.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn marchnata ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Codi statws y Gymraeg ac ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog. A thrwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r manteision hyn, cael mwy o drigolion y sir i ddysgu'r iaith.</p> <p><i>(Cam gweithredu rhif 12942)</i></p>	✓	<p>Mae Fforwm Iaith Gymraeg Strategol y sir yn gweithio i farchnata a hyrwyddo'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal i hyrwyddo'r iaith ac mae'n gysylltiedig â gwefan Darganfod Sir Gâr, sydd newydd gael ei diweddarau. Mae'r Fforwm yn arwain ar baratoi 'Pecyn Gwybodaeth' i unigolion / teuluoedd sy'n symud i Sir Gaerfyrddin a fydd yn darparu'r cyd-destun ieithyddol a'r cyfleoedd ar gyfer addysg ddwyieithog. Bydd yr arolwg Ymwybyddiaeth o Ddwyieithrwydd yn rhoi sylfaen dystiolaeth glir ar gyfer ein gwaith yn ystod 2018-19 a meysydd blaenoriaeth.</p>
<p><b>C - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg</b></p>		
<p>Gweler y camau gweithredu yn Amcan Llesiant 3 – Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr</p>		
<p><b>D - Diwylliant a Threftadaeth</b></p>		
<p>Byddwn yn datblygu prosiect digidol 'Stordy Digidol' i ehangu mynediad i wasanaethau diwylliannol a chasgliadau ein sir.</p> <p><i>(Cam gweithredu rhif 12705)</i></p>	✓	<p>Mae gweithgor Stordy Digidol o blith llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol 2017/18 i ddatblygu a chytuno ar gynnwys. Mae seilwaith y wefan wedi'i gwblhau erbyn hyn ac mae cynnwys wedi'i ddilysu gan y llyfrgelloedd wedi ei lwytho. Mae hyn yn gyfystyr â rhyw 770 o ddelweddau, ac yn dilyn hyn bydd cynnwys o amgueddfeydd ac archifau sydd heb gael ei ddilysu eto. Yr amcan yn yr ail gam yw tagio a chysylltu casgliadau drwy storïau.</p>
<p>Byddwn yn gweithio tuag at gael y cynllun pum mlynedd wedi ei gymeradwyo ar gyfer ein Hamgueddfeydd, ac, fel rhan o'r cynllun hwnnw, datblygu'r cysyniad o ganolfan gasgliadau i'r Sir.</p> <p><i>(Cam gweithredu rhif 12943)</i></p>	✓	<p>Cafodd Strategaeth Amgueddfeydd 2017-22 ei chymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol ar 31 Gorffennaf, 2017. Rydym wedi sicrhau cyllid gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau, a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru i adolygu gofynion storfa gasgliadau. Bydd y gwaith yn parhau yn ystod 2018/19.</p>
<p>Byddwn yn dechrau gweithredu ein cynllun Datblygu Llyfrgelloedd 2017 – 2022 ac fel rhan o gyflwyno'r cynllun hwnnw, y gwasanaeth llyfrgelloedd teithiol newydd. Hefyd ein bwriad yw cadw casgliad Archif Sir Gaerfyrddin mewn adeilad priodol yn llyfrgell Caerfyrddin.</p> <p><i>(Cam gweithredu rhif 12642)</i></p>	✓	<p>Mae'r cerbydau teithiol newydd wedi bod ar waith ledled y sir ers mis Awst 2017 ac mae'r llwybrau presennol wedi cael eu hadolygu gan roi bod i lwybrau newydd o 1 Ebrill 2018. Mae Makerspace wedi cael ei ddatblygu a'i lansio yn llyfrgell Rhydaman ac mae cyflenwad uniongyrchol a dulliau cyflenwi'r gwasanaethau llyfryddol wedi eu gweithredu'n llawn bellach.</p>